



Y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol

Dyddiad: Dydd Llun 10 Rhagfyr 2018

Amser: 10:30y.b. tan 12:30y.h.

Lleoliad: Ystafell SCC001 ym Mhencadlys yr Heddlu

Yn bresennol:-

NH (Cadeirydd)	Ymgynghorydd Annibynnol
DT	Ymgynghorydd Annibynnol
NC	Ymgynghorydd Annibynnol
ME	Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg, HDP
MBr (cofnodion)	Swyddog Cymorth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg, HDP
PS	Ymgynghorydd Annibynnol
RB	Ymgynghorydd Annibynnol
KR	Ymgynghorydd Annibynnol
AJ	Cydllynydd Dinasyddion Mewn Plismona – HDP

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb a Chyflwyniadau

Cyflwynodd pawb ei hun a nodwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

JJ	Ymgynghorydd Annibynnol
DML	Ymgynghorydd Annibynnol
CHL	Ymgynghorydd Polisiâu ac Ymgysylltu - SCHTh
MC	Y Prif Gwnstabl, Heddlu Dyfed-Powys
VE	Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro, Heddlu Dyfed-Powys

2. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod hwnnw.

Diweddariad ynghylch camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf:-

Rhestr o Ddiweddariadau mewn perthynas â'r Camau Gweithredu:-

Rhif y cam gweithredu	Manylion y Cam Gweithredu	Perchennog	Diweddariad:
1	EN i sicrhau bod manylion swyddogion troseddau casineb yn cael eu cynnwys ar y tudalen troseddau casineb a hefyd bod manylion cyswllt Swyddogion/ SCCH yn gyffredinol yn cael eu cynnwys ar y tudalen we newydd.	EN	<p>Yn parhau -</p> <p>Bydd gwybodaeth ynghylch yr hyn yw Trosedd Casineb, sut y gall swyddog troseddau casineb helpu, a sut i gysylltu â swyddog troseddau casineb, yn cael ei chynnwys ar wefan HDP. Cytunwyd na fyddai manylion cyswllt unigol yn cael eu cynnwys gan nad oes modd cysylltu â swyddogion/SCCH pan nad ydynt ar ddyletswydd. Bydd y dudalen ar droseddau casineb yn nodi y gall aelodau o'r cyhoedd gysylltu â swyddog troseddau casineb yn eu cymuned trwy alw 101.</p> <p>AL/EN i drefnu darn penodol o waith er mwyn codi ymwybyddiaeth o fewn y Gymuned Fyddar i sicrhau eu bod nhw'n deall sut i gysylltu â'r heddlu.</p>
2	JL i rannu drafft o'r daflen gwyno newydd i aelodau'r GYA ar gyfer adborth pan mae'n barod.	JL	<p>Yn parhau - Unodd y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Adran Safonau Proffesiynol ar 1 Ebrill 2018. Bydd y daflen gwyno newydd yn cael ei chyhoeddi ar ôl y dyddiad hwn.</p> <p>Diweddariad 25.9.2018 Bydd y daflen gwyno newydd yn adlewyrchu</p>

			<p>taflen gwyno Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Mae cyfeiriad e-bost newydd wedi ei greu a bydd modd i unigolion alw 101 fel pwynt cyswllt sengl. Bydd gwybodaeth am y gwasanaeth neges destun ar gyfer y rhai sydd â nam ar eu clyw a'u lleferydd hefyd yn cael ei chynnwys ar y daflen. Cyn gynted ag y bydd y drafft yn barod, bydd copi'n cael ei ddsbarthu i'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ar gyfer adborth.</p> <p>Diweddariad 7.12.18 Rhoddodd aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol adborth i JL. Bydd y daflen gwyno newydd yn cael ei lansio yn y flwyddyn newydd.</p>
3	AL ac EN i ymgysylltu a thrafod sut y gellir cyflwyno gwasanaeth cyfieithu fideo laith Arwyddion Prydain i'r heddlu fel ffordd o gyfathrebu.	AL ac EN	Yn parhau Bydd ME ac EN yn ymgysylltu er mwyn symud y mater hwn ymlaen.
4	PJ i sicrhau bod data'r flwyddyn flaenorol ynghylch dalfeydd yn cael ei gynnwys ar y daenlen er mwyn cymharu.	PJ	Yn parhau. Yr Arolygydd Ross i ymchwilio i sut i gynnwys data'r flwyddyn flaenorol ar y daenlen. Darperir diweddariad yn y cyfarfod nesaf.
6	Dylid newid y geiriad ar y proffiliau rôl ar gyfer swyddi Dirprwy Brif Gwnstabl a Phrif Gwnstabl Cynorthwyol i 'nhw' yn hytrach nag 'ef' neu 'hi'.	Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu	Yn parhau. ME i wirio bod y gwaith hwn wedi'i gwblhau.
9	Pob aelod i anfon eu henwebiadau ar gyfer Cadeirydd ac Is-gadeirydd at MBr.	Pawb	Yn parhau. I'w drafod mewn cyfarfod ar 10 Rhagfyr 2018.
10	ME i sicrhau bod nodweddion gwarchoddedig aelodau o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn cael eu cynnwys yn ystadegau Amrywiaeth Heddlu Dyfed-Powys.	ME	Yn parhau. I'w drafod mewn cyfarfod. ME i edrych ar osod gwirfoddolwyr y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ar iTrent.

11	MBr i anfon adborth mewn perthynas â'r daflen recriwtio, y ffurflen gais a'r ffurflen gwybodaeth bersonol hawdd eu darllen y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol at fudiad Pobl yn Gyntaf Sir Benfro.	MBr	Yn parhau. Mae adborth wedi'i dderbyn a bydd yr adborth hwn yn cael ei anfon at fudiad Pobl yn Gyntaf Sir Benfro.
13	MBr i osod camerâu corff ar yr agenda ar gyfer cyfarfod 10 Rhagfyr 2018.	MBr	Yn parhau – Bydd camerâu corff ar yr agenda ar gyfer cyfarfod 11 Mawrth 2019.

3. Gwirfoddolwr – Diolch.

Er mwyn cydnabod cyfraniad gwerthfawr aelodau o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i'w cymuned, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys, cyflwynodd AJ, y Cydlynnydd Dinasyddion Mewn Plismona, Dystysgrif o Werthfawrogiad i aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.

4. Diogelwch Wifi

Mewn perthynas â chamerâu corff, mynegodd DT bryder am ddiogelwch wifi. Hysbysodd DT y grŵp fod y Gynhadledd Hacwyr Genedlaethol yn cael ei chynnal unwaith y flwyddyn ym mis Medi. Mae Josh Mitchell wedi ymchwilio i dros 70 o fodolau camera corff ac wedi canfod materion diogelwch difrifol mewn perthynas â nhw. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r materion diogelwch a godwyd. Dywedodd DT nad oeddent yn gwybod pa systemau mae HDP yn defnyddio, ond mae angen i'r adran TGaCh sicrhau eu bod nhw'n gwybod am y materion a godwyd a sut i'w goresgyn.

Dywedodd KR y byddai gwerthuso diogelwch system gyda Llywodraeth Cymru'n rhan o'r broses gaffael.

Cam Gweithredu:- ME i roi adborth mewn perthynas â'r materion diogelwch a godwyd ar gyfer camerâu corff i'r rheolwr prosiect, systemau busnes a gweithredol.

5. Gweithredu Cadarnhaol

Rhoddodd ME ddiweddariad i'r grŵp mewn perthynas â Gweithredu Cadarnhaol. Cyflwynwyd taflenni recriwtio gweithredu cadarnhaol i'r grŵp ac esboniodd ME y gweithdai a fydd yn cael eu cynnal yn y flwyddyn newydd. Hefyd, esboniodd ME y llwybrau mynediad newydd i'r grŵp.

Gofynnodd ME i'r grŵp roi adborth ar y taflenni recriwtio gan fod recriwtio bellach ar sail Cymru gyfan ac mae'r brandio wedi newid.

Awgrymodd NH y dylai geiriad y daflen recriwtio fod yn benodol. Enwch y cymunedau rydych chi eisiau recriwtio ohonynt yn arbennig, h.y. pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, y gymuned LHDT. Cytunodd KR â sylwadau NH, gan ddweud y dylid cydnabod ymhle mae'r bwloch a bod angen ei wella hefyd. Yn ogystal, awgrymodd KR y dylid enwi rhywfaint o'r mecanwaith mae'r heddlu'n bwriadu defnyddio. Awgrymodd NC fod angen cynyddu ffydd er mwyn annog pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig i ymgeisio.

Awgrymodd DT fod gormod o eiriau ar y daflen a bod angen i'r wybodaeth fod yn fwy penodol. Mae pwyntiau bwled yn ddefnyddiol gan na fydd pawb yn darllen y daflen yn ei chyfanrwydd, ac mae maint ffont 12 yn rhy fach hefyd. Nid yw ystyr y brandio'n eglur iawn. Beth yw ystyr yr holl linellau? Awgrymodd PS y dylid cynnwys y siroedd ar bob cyfeiriad. Hefyd, dywedodd PS fod y daflen yn rhy brysur. Beth yw ystyr y sbaner a'r het cogydd? Nid yw'n edrych fel pe bai'n ymwneud ag ymuno â'r heddlu. Awgrymodd PS y dylai gweithdy gael ei gynnal yng Nghaerfyrddin hefyd.

Cam Gweithredu:- ME i roi adborth mewn perthynas â'r daflen recriwtio i'r swyddog gweithredu cadarnhaol a'r tîm cyfathrebu corfforaethol.

Cam Gweithredu:- Y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i roi manylion am unrhyw grwpiau sydd eisiau derbyn taflenni recriwtio i ME.

Cam Gweithredu:- Rhoi copi PDF o'r daflen recriwtio i KR.

6. Taflen Gwyno – diweddariad/adborth

Rhoddodd JL ddiweddariad ar y daflen gwyno newydd. Mae'r daflen ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd, ac unwaith y bydd wedi'i gorffen, bydd yn cael ei hargraffu'n Gymraeg a Saesneg ym mis Ionawr 2019. A5 fydd maint y daflen. Mae'r adran cyfathrebu corfforaethol hefyd yn adolygu'r daflen. Bydd timoedd plismona bro'n dosbarthu'r daflen gwyno i bob cymuned.

Gofynnodd JL i'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol am eu hadborth.

Holodd PS pa un ai a fyddai'r daflen gwyno ar gael ar ffurf iaith Arwyddion Prydain. Esboniodd PS mai Saesneg oedd ei ail iaith ac mai iaith Arwyddion Prydain oedd ei iaith gyntaf. Ni fyddai llawer o bobl fyddar yn darllen y daflen gwyno gan fod gormod i'w ddarllen ac ni fyddant o reidrwydd yn ei deall. Pe bai'r daflen ar ffurf lluniau, byddai'r gymuned fyddar yn cymryd mwy o ddiddordeb ac yn ei deall yn well. Cafwyd trafodaeth am gydraddoldeb. Awgrymodd y grŵp mai'r fformat orau fyddai lluniau, fideo iaith Arwyddion Prydain neu fersiwn hawdd ei ddarllen.

Mynegodd NC bryder fod llawer o eiriau ar y daflen, ac na fyddai rhywun mewn gwewyr o reidrwydd yn cymryd yr holl wybodaeth i mewn.

Roedd DT yn credu bod y daflen wedi'i threfnu'n dda, ond er mwyn annog pobl i gwyno, dylid gosod datganiad ar flaen y taflenni'n esbonio fod yr heddlu eisiau clywed cwynion er mwyn dysgu. Byddai hyn yn annog pobl i gwyno.

Awgrymodd PS y dylai'r wybodaeth ar gyfer y gymuned fyddar fod ar dudalen 2 neu 3 oherwydd mae'n bosibl na fyddant yn darllen y daflen i gyd gan y byddai hynny'n ormod. Mae angen i'r geiriad sefyll allan er mwyn sicrhau ei fod yn amlwg.

Holodd KR sut mae'r heddlu'n canfod hoff ddull cyswllt unigolion. Dywedodd JL eu bod nhw bob amser yn sefydlu hoff ddull cyswllt unigolion. Holodd NC sut mae'r heddlu'n cyfathrebu â phobl sy'n agored i niwed. Hysbysodd JL y grŵp fod yr heddlu'n defnyddio eiriolaeth ac ymchwilwyr medrus yn unol â'r sefyllfa a'r amgylchiadau.

Awgrymodd NH y dylid ymdrin â'r sefyllfa yn y lle cyntaf yn ddefnyddol. Dywedodd JL y byddai hyfforddiant yn cael ei roi i'r staff trin galwadau o fewn y ganolfan gyfathrebu yn y flwyddyn newydd. Yna, bydd hyn yn cael ei gyflwyno i staff rheng flaen a staff desg ffrynt. Dywedodd JL fod Rhingylliaid ac Arolygwyr wedi'u hyfforddi i ymdrin â chwynion hefyd.

Awgrymodd NC y dylai'r heddlu ystyried hyfforddiant rheoli gwrthdaro MAYBO (cymorth ymddygiad cadarnhaol), sy'n eich dysgu sut i gefnogi rhywun sydd mewn gwewyr i'w dwyn yn ôl i'r man cychwyn o fewn sefyllfa ddigyffro. Bydd JL yn gwirio â'r adran Hyfforddi i weld pa un ai a oes gan yr heddlu'r hyfforddiant hwn.

Holodd RB pa un ai a fyddai fersiwn braille o'r daflen gwyno ar gael. Cadarnhaodd ME y gellir trefnu fersiwn braille.

Cam Gweithredu:- JL i ddsbarthu'r fersiwn ddiweddaraf o'r daflen gwyno i'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ar gyfer adborth.

Cam Gweithredu:- JL i wirio pa un ai a yw'r heddlu'n darparu hyfforddiant MAYBO a rhoi adborth i'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.

7. Diweddariadau o Gyfarfodydd Eraill

Y Grŵp Iechyd Meddwl Strategol

Rhoddodd DT ddiweddariad o gyfarfod y Grŵp Iechyd Meddwl Strategol. Rhoddodd DT wybod i'r grŵp am ffrwd gyllido/prosiect profiad niweidiol yn ystod plentyndod. Mae profiad niweidiol yn ystod plentyndod yn ymwneud â'r ffordd y mae ymddygiad pobl fel oedolion wedi'i effeithio gan eu profiadau yn ystod plentyndod.

Dywedodd DT bod y fenter hon yn ddiddorol a bod partneriaethau'n cael eu sefydlu er mwyn cefnogi unigolion â'r problemau hyn. Mae'r pwyslais ar waith partner. Cafwyd trafodaeth am iechyd meddwl a dywedodd DT eu bod yn fodlon iawn â'r hyfforddiant ar y cyd sy'n digwydd ar draws yr heddlu.

7.1 Stopio a Chwilio

Rhoddodd ME ddiweddariad mewn perthynas â Stopio a Chwilio. Adolygodd y Panel Sicrhau Ansawdd stopio a chwilio yn ddiweddar, ac ni nodwyd unrhyw faterion amrywiaeth. Maen nhw wrthi'n cynllunio ar gyfer hap samplu defnydd o rym a thrin

galwadau ym mis Rhagfyr. Mae'r wybodaeth ar gael ar wefan SCHTh. Mynegodd NH a DT bryder am y ffaith nad oes materion amrywiaeth wedi'u codi a gofynnwyd am i hyn gael ei fwydo yn ôl i'r grŵp ansawdd a sicrwydd oherwydd credir nad yw'r Panel Sicrhau Ansawdd o bosibl yn grŵp sy'n ddigon amrywiol ar gyfer sylwi ar faterion o'r fath.

7.2 Cyfarfod y Pwyllgor Moeseg

Aeth NH i gyfarfod y Pwyllgor Moeseg a rhoddodd ddiweddariad i'r grŵp hwn. Mae'r pwyllgor hwn yn adolygu unrhyw broblemau moesegol sy'n dod i'w sylw. Hysbysodd NH y grŵp y gall unrhyw un o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol fynd i'r grŵp hwn.

7.3 Cyfarfod y grŵp prosiect TCC

Aeth PS i'r cyfarfod hwn a rhoddodd ddiweddariad i'r grŵp. Dywedodd PS fod rhai camerâu yn Hwlfordd yn cael eu cludo i ffwrdd a mynegodd bryder am y gostyngiad yn nifer y camerâu o gwmpas Hwlfordd.

8. Cadeirydd Penderfyniadau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol

Cytunodd y grŵp y byddai RB yn Gadeirydd ac y byddai DT yn dirprwyo o'r cyfarfod nesaf ymlaen.

9. Gwerthuso'r Cyfarfod

Diolchodd NH i'r grŵp am eu cymorth yn ystod ei hamser fel Cadeirydd. Diolchodd yr aelodau i NH hefyd am ei hymrwymiad i'r rôl dros y blynyddoedd diwethaf.

Cydnabu'r grŵp ddiwedd aelodaeth JJ hefyd, ac roeddent am ddiolch iddo a dymuno'n dda iddo yn y dyfodol.

Sicrhodd **NH** fod canlyniadau'r cyfarfod fel y'u nodir yn yr agenda wedi'u bodloni. Cadarnhawyd bod yr holl ddeilliannau wedi'u bodloni.

Cadarnhawyd mai 11 Mawrth 2019 fydd dyddiad y cyfarfod nesaf, a hynny am 10.30 o'r gloch y bore ym Mhencadlys yr Heddlu.